

## **Cyngor Cymuned Llanystumdwy,**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, 6ed o Ragfyr, 2018 yn Ffestri Pencaenewydd.

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; William Ifor Hughes; Aled Davies; Ceri Jones; Tegid Jones, Sion Aled Jones; Trefor Wyn Jones, Gareth O Davies, a Sian Angharad Parry a Thomas Prys Jones a'r Clerc.

### **1.Ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr Naomi Jones; ac Angela Williams.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 1af o Dachwedd 2018.

Fe drefnwyd i gynnal y pwyllgor Cynllun Busnes o flaen y prif bwyllgor, ar 6ed o Ragfyr, 2018, oherwydd nad oedd digon yn bresennol yn yr un gwreiddiol oedd wedi cael ei drefnu ar y 18fed Hydref. Bydd y cofnodion yma arwahân i'r rhai prif gyfarfod.

3. Llofnodwyd cadarnhâd y taliadau BACS gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Cais cynllunio codi cytiau cwn, Cefn Coed, Chwilog.

- Y Cyngorydd Aled Evans yn datgan buddiant personol yn rhif 7(d), oherwydd ei fod yn gymydog i'r ymgeisydd, a bod mynedfa ei dŷ yn uniongyrchol dros y ffordd i fynedfa Cefn Coed.

### **6. Cyngor Gwynedd**

- i) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (y Groeslon, Pwllheli a Chwilog) (Cyfyngiad Cyflymder Parth 20 a 40 m.y.a.) 2018. Rhybudd cyhoeddus fod y cyfnod gwrthwynebu yn dod i ben ar yr 28ain o Ragfyr 2018. Derbyn er gwybodaeth.
- ii) Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig ger tai Glanywern, Chwilog. Y dyddiad cau i dderbyn ymateb gan y tai sydd gerllaw oedd 28 niwrnod ar ol 26ain o Fedi 2018. Y Clerc wedi derbyn gohebiaeth gan yr Adran Amgylchedd yn dweud fod y cynnig wedi cael ei anfon at y Gwasanaeth Cyfreithiol a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cychwyn. Roedd yr adran am ein hysbysu ar ol cyfnod yr ymgynghori os byddent yn derbyn gwrthwynebiadau. Roedd y Clerc hefyd wedi derbyn ymateb gan y Gwasanaeth Tân, yn egluro ei bod wedi asesu'r lon ac wedi cadarnhau y

byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu cyrraedd pob daliad yn yr ardal heb oedi sylweddol mewn unrhyw ddigwyddiad o argyfwng. Penderfynu cysylltu hefo Cyngor Gwynedd eto fis Chwefror 2019.

- iii) Cau'r ffordd dosbarth III ger Gwag y Noe, Chwilog, - gwahardd trafndiaeth trwodd dros dro o'r 16 Tachwedd 2018 ymlaen am hyd at 5 diwrnod i atgyweirio 'byrst' mewn prif pibell ddwr. Angen i'r Clerc gysylltu hefo'r Cyngor a'r Bwrdd Dwr eto, oherwydd fod problem hefo dwr yn mynd i lawr y lon am Gwag y Noe ar ol i'r gwaith gael ei wneud.
- iv) Adran Priffyrdd, bydd gwaith draeniad am oddeutu 3 diwrnod yn ymyl Dynanau, Rhoslan. Derbyn er gwybodaeth.
- i) Biniau halen o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt. Mae un ger Gwyddfor, Chwilog, Pentyrch Uchaf, Llanygybi, rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan a Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy. Y Clerc wedi bod yn holi, ac mae angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt o dro i dro. Mae tri Cynghorydd lleol a'r Clerc wedi cynnig cadw golwg ar gynnwys y biniau bob hyn a hyn.

7. Swyddog Cofrestru - Sedd Wag Achlysurol - Ward Llanystumdwy, Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Swyddog Cofrestru yn cadarnhau na dderbyniwyd cais am etholiad ar gyfer y sedd uchod. Felly, byddai angen cyfethol aelod newydd. Fe roddwyd rhybudd i fyny i wahodd datganiad o ddiddordeb, ac fe roddwyd dyddiad cau o 25ain o Dachwedd 2018 arno. Fe dderbyniwyd ymateb gan Mr Darren Morley, yn datgan fod ganddo ddiddordeb i ymuno â'r Cyngor. Trafodwyd y mater, a penderfynwyd cynnig y sedd iddo, a bod y Clerc yn anfon ebost ato, i'w hysbysu o hyn, gan ei wadd i'r cyfarfod nesaf i gwblhau'r ffurflenni perthnasol.

### **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

- a. Cais Rhif C18/0956/41/LL - estyniad ochr deulawr Bryn Gwynt, Afonwen, Chwilog. Dim gwrthwynebiad.
- b. Cais Rhif C18/0995/41/LL - codi adeiliad amaethyddol ar gyfer storio peiriannau a defaid dros y gaeaf ac i wyna, Fron Oleu, Llanygybi. Cefnogi.
- c. Cais Rhif C18/1055/41/LL - newid amod 2 o C14/0113/41AM i ymestyn amser cyflwyno materion a gadwyd yn nol, Bryn Hyfryd, Chwilog. Dim gwrthwynebiad.
- d. Cais Rhif C18/1050/41/LL -Codi Cytiau Cwn, Cefn Coed, Chwilog. Y cais wedi cyrraedd yn hwyr ar 05.12.18, ond ni dderbyniwyd y cynlluniau manwl cyn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar y noson, ond yn dilyn sgwrs rhwng y Cadeirydd a'r Clerc, penderfynwyd rhoi y cais ar y rhaglen fis Ionawr er mwyn ei drafod hefo'r manylion llawn, a bod y Clerc yn cysylltu hefo'r Adran Cynllunio i'w hysbysu bydd y sylwadau yn cael ei anfon atyn nhw'n syth ar ol y cyfarfod hwnnw.

8. Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 ymlaen; un Cynghorydd heb lofnodi.

## 9. Materion yn y gymuned.

### Llanarmon

#### Llanystumdwy

- Mainc y Cyngor ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain. Y Clerc wedi cysylltu hefo Adran Priffyrdd i holi beth oedd y canllawiau ynglyn ag ail osod mainc arall mewn man cyfagos. Ymweliad wedi ei drefnu ar y safle, rhwng Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cynghorydd o Lanystumdwy a'r Clerc. Penderfynu fod lleoliad yr hen fainc yn rhy agos i'r lon, felly cysidro dau leoliad posib arall cyfagos. Mae'r lleoliad cyntaf yn agos i leoliad yr hen fainc, ble mae hen giat yn y clawdd, (bydd angen i'r Clerc anfon llun a chysylltu hefo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ofyn am ganiatâd oherwydd mai nhw yw perchnogion y cae). Mae'r lleoliad arall ger mynedfa Cae Terfyn. Y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gael ffurflen gais S115, i ofyn am gael caniatâd.
- Elusen William Ellis - hysbyseb wedi cael ei roi yn Y Ffynnon ac o flaen y Neuadd yn Llanystumdwy tan 30ain o Dachwedd 2018. Cynghorwyr Llanystumdwy a'r Clerc wedi trafod y ddau gais a dderbyniwyd, gan drafod faint i'w gyfrannu ar ddiwedd y cyfarfod.

### Rhoslan /Ynys

#### Chwilog

- Mainc newydd yng nghanol Chwilog. Ymweliad wedi ei drefnu ar y safle, rhwng Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cynghorydd o Chwilog a'r Clerc. Penderfynwyd gofyn am ffurflen gais S115, er mwyn ystyried rhoi mainc o flaen y neuadd
- Swyddfa Bost, Chwilog - cynnal gwasanaeth yn y Neuadd am ychydig oriau ar dri diwrnod yr wythnos am gyfnodau penodol. Derbyn er gwybodaeth.
- Mainc newydd yng nghanol Chwilog. Ymweliad wedi ei drefnu ar y safle, rhwng Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cynghorydd o Chwilog a'r Clerc. Penderfynwyd gofyn am ffurflen gais S115, er mwyn ystyried rhoi mainc o flaen y neuadd.

### Pencaenewydd/Sardis

#### Llangybi

- Trafodwyd bod un fraich yn eisiau ar yr arwydd ffordd ar Groeslon Pengongl (ger Bronallt), Llangybi. Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Adran Priffyrdd yn cadarnhau fod y mater wedi cael ei roi ar y rhaglen waith i gael ei adnewyddu 'yn ei dro'. Derbyn er gwybodaeth, a chadw golwg ar y mater.

10. Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor drwy lythyr a mantolen ariannol - wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr o'r Ffynnon gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2019, ac ar wefan y Cyngor Cymuned.

11. Agenda a'r papurau perthnasol ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor Un Llais Cymru a gynhelir am 7pm ar nos Iau y 13eg Rhagfyr 2018, yn Ystafell Menai, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon, Allt y Pafiliwn, Caernarfon. Derbyng er gwybodaeth.

12. Cwrs Un Llais Cymru - Clerc wedi mynychu Cwrs Hyfforddi yn Siambr y Cyngor, Llangefni 20fed o Dachwedd 2018 rhwng 6:30 - 9:00 yn trafod Modiwl 15, sef Rheoli Gwybodaeth - drwy ganiatâd y Cadeirydd. Cost o £40.00 ar gyfer aelodau. Derbyng er gwybodaeth.

**13. Deddf Diogelu Data - mae angen rhoi polisi ar ein gwefan.**

Mae Clerc Cyngor Tref Caernarfon wedi rhoi caniatâd i unrhyw un ddefnyddio eu polisiau nhw ar gyfer ei addasu ar gyfer ein Cyngor ni.

Maent i'w gweld ar safle we Cyngor Tref Caernarfon, mae rhain yn yr adran Polisiau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Y Cadeirydd wedi mynd drwy'r polisi i'w addasu ar ein cyfer, ac wedi anfon copi i'r Clerc er mwyn ei newid cyn ei osod ar ein gwefan.

Angen trafod, er mwyn bod mewn sefyllfa i'w rhoi ar ein gwefan.

**Materion Ariannol**

14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

15. Gohebiaeth oddi wrth Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol ynghylch Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Gwariant Adran 137: ar gyfer 2019-20. Penderfynwyd derbyn mai £8.12 am bob etholwr fydd y swm; £7.86 yw'r swm ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Derbyng.

16. Gohebiaeth gan Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gofyn am gyflwyno manylion penderfyniad ein Cyngor Cymuned ar gyfer praesept 2019/20, erbyn 25ain Ionawr 2019. Bydd angen anfon ateb ar ol ein cyfarfod nesaf ddechrau Ionawr 2019.

17. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Un Llais Cymru	Cwrs 30.10.18 Modiwl 5 Disgwyl ateb i gael bwrsari yn nol o £17.50.	40.00		40.00	√
Un Llais Cymru	Cwrs 20.11.18 Modiwl 15	40.00		40.00	√
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio allannol	393.75		393.75	Aros cyn ei dalu

Mae'r bil Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynyddu i £393.75 eleni, yn lle £203.40 llynedd. Mae'r cyn-glerc wedi anfon ebost i holi am hyn, oherwydd fod y ffigwr wedi

cynnyddu'n sylweddol. Mae wedi derbyn un ymateb ganddynt ond wedi holi ymhellach gan ddweud:-

*"Diolch am yr ateb set.*

*Felly mae'r ffi o £393.75c wedi'i sylfaenu ar waith am hyn a hyn o oriau, dan wahanol gategorïau arweinydd tim, archwilydd ac ati. Un waith y gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol yn ystod yr archwiliad ac fe'i hanfonwyd yn ddiymdroi (roeddech wedi derbyn y wybodaeth cynt beth bynnag).*

*Felly dylech allu rhestru'r union waith wnaethoch, faint o amser dan wahanol arbenigedd i'r Cyngor ac yn y pendraw y trethdalwyr gael gweld yn union sut daeth cyfanswm yr anfoneb i £393.75c (£203.40c llynedd a £199.95c y flwyddyn cynt."*

Nid oes ateb pellach wedi cyrraedd eto.

Y Clerc wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod SLCC, Cyngor Tref Caernarfon, ar 14.12.18, oherwydd fod Mr Mabon ap Gwynfor yn mynd i fod yn bresennol yno ar ran Llyr Gruffydd AC, i drafod problemau y mae cynghorau yn ei cael hefo'r archwiliad BDO.

Cyflog mis Tachwedd 2018 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

<u>Enw</u>	£	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2018 35 awr x £9.808 =	343.28-llai treth £68.60	<b><u>274.68</u></b>	100992
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2018	343.00 x 20% = £68.60	<b><u>68.60</u></b>	100993
Costau'r Clerc		<b><u>110.80</u></b>	100994
Clifford Hughes, Ty Newydd, Tai Charles Jones, Llangybi	Torri gwellt/cae chwarae/glanhau matiau/barbio tu cefn i'r ffens/barbio llwybr Afonwen	<b><u>422.00</u></b>	BACS yn lle siec

Ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor bu cyfarfod i Gynghorwyr Ward Llanystumdwy a'r Clerc i drafod ceisiadau am gyfraniad o Elusen William Ellis.

"It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerc."